

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Dyfroedd Ymdrochi Dynodedig - Pwyllgor Craffu Bro Morgannwg Mehefin 2026


Michelle Griffiths - Rheolwr Gweithrediadau Canol De Cymru

Andy Robinson - Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd, Canol De Cymru

Will John – Rheolwr Prosiect, Prosiect Dyfroedd Ymdrochi Canol De Cymru

# Monitro a Dosbarthu Dyfroedd Ymdrochi

- Caiff ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig yng Nghymru ei asesu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- O 1 Mai i 30 Medi, mae asesiadau rheolaidd yn mesur ansawdd cyfredol y dŵr, ac mewn rhai safleoedd cyhoeddir rhagolygon perygl llygredd yn ddyddiol.
- Dadansoddi am bresenoldeb bacteria sy’n ddangosyddion ysgarthol – E.coli ac Enterococi Coluddol
- Mae’r sgoriau a roddir yn flynyddol yn dosbarthu pob safle yn ôl a yw’n rhagorol, da, digonol neu’n wael, ar sail y gwaith monitro a wneir dros gyfnod o bedair blynedd.






# Dosbarthiadau Dyfroedd Ymdrochi Bro Morgannwg 2025

| Disgrifiad | Dosbarthiad 2025 | Dosbarthiad 2024 |
|---|---|---|
| Traeth Penarth | DA | DA |
| Bae Jackson, Ynys y Barri | DA | DA |
| Bae Whitmore, Ynys y Barri | DA | DA |
| Y Cnap, y Barri | RHAGOROL | RHAGOROL |
| Bae'r Tŵr Gwylio | GWAEL | DIGONOL |
| Traeth Col-Huw (Llanilltud Fawr) | RHAGOROL | RHAGOROL |
| Southerndown | RHAGOROL | RHAGOROL |
| Aberogwr | GWAEL | GWAEL |
| Bae Ffont-y-gari **Dynodiad newydd* | Caiff ei ddosbarthu ar ôl tymor 2026 | |

- Caiff y dosbarthiadau eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref ar ôl y tymor ymdrochi
- Tri thraeth 'Rhagorol' ym Mro Morgannwg
- Mae mwyafrif y traethau'n gyson o ran eu dosbarthiad
- Bae Jackson bellach yn Dda, wedi codi o Ddigonol ddwy flynedd yn ôl, yn risg yn flaenorol
- Mae Bae'r Tŵr Gwylio ac Aberogwr ill dau yn 'Wael'
- Dynodwyd Bae Ffont-y-gari yn ddiweddar ar gyfer 2026

# Rhagfynegi Perygl Llygredd – Bae Whitmore a Jackson




- **Cam 1** - Datblygu modelau i ragfynegi ansawdd y dŵr; cwblhawyd yn 2024 – Rhaglen o waith monitro ac yna datblygu'r model rhagfynegi ar sail newidynnau allweddol y dalgylch
- **Cam 2** – Awtomeiddio'r broses o redeg y modelau gyda meddalwedd/dysgu peirianyddol – 2025-2026
- Gwaith partneriaeth rhwng CNC, Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir a Bro Morgannwg
- Bydd arwyddion electronig yn dangos negeseuon newidiol ar y traethau ac ar-lein gyda'r rhagolygon ar gyfer ansawdd y dŵr – bob awr 8am-8pm, Mai-Medi
- Anelu at system weithredol ar gyfer tymor 2026

| | |
|---|---|
| GOOD WATER QUALITY PREDICTED FOR THE NEXT HOUR | RHAGWELIR ANSAWDD DŴR DA AM YR AWR NESAF |

Updated hourly between 8am - 8pm / Diweddir bob awr rhwng 8am ac 8pm



# Prosiect Dyfroedd Ymdrochi Canol De Cymru

- Dyfroedd ymdrochi Bae'r Tŵr Gwylio ac Aberogwr wedi'u dynodi yn 2023; ansawdd y dŵr yn 'wael' yn y ddau.
- Mae statws gwael yn ysgogi gofyniad yn y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi i fynd ati i nodi ac ymdrin ag achosion y llygredd.
- Bydd y prosiect peilot hwn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhedeg tan fis Mawrth 2027.
- Rydym yn deall bod ansawdd dyfroedd ymdrochi yn bwysig i iechyd a lles y cyhoedd, yn ogystal ag i gymunedau lleol a'r economi.





# Prosiect Dyfroedd Ymdrochi Canol De Cymru

- Bydd yn allweddol gwahodd rhanddeiliaid (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir a Dŵr Cymru) i ymuno â phartneriaeth dalgylch: *gwrando ar bobl, deall eu pryderon a gweithio gyda'n gilydd i wireddu newid cadarnhaol.*

- Mae'r ffocws uniongyrchol ar ansawdd dyfroedd ymdrochi, ond mae'r prosiect hwn hefyd yn edrych ar wydnwch y dalgylch ehangach. *Gall beth sy'n digwydd yn rhannau uchaf corff dŵr effeithio ar rannau isaf y dalgylch.*

- Dull integredig sydd hefyd yn ystyried materion ehangach – ffynonellau llygredd lluosog, e.e. camgysylltiadau, ffynonellau cysylltiedig ag amaeth, hen seilwaith, Systemau Glanweithdra Heb Garthffosiaeth.






## Prosiect Dyfroedd Ymdrochi Canol De Cymru

- Tystiolaeth – Edrych ar y data presennol, bylchau yn y wybodaeth, a sut mae eu llenwi: *Adnodd ychwanegol ar gyfer ymchwiliadau, swyddogion allan mewn dalgylchoedd yn chwilio am ffynonellau llygredd*

- Nod – datrys problemau dyfroedd ymdrochi a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi, gan gydnabod nad oes datrysiad tymor byr, ond chwilio am lwyddiannau yn y tymor byr a chanolig ar hyd y ffordd

- Nod – Gwaddol hirdymor partneriaeth dalgylch weithredol






**Cyfeiriad e-bost y prosiect:**
**dyfroeddymdrochiCanolyDe@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Unrhyw gwestiynau?





